# Agenda - Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Gwener, 26 Chwefror 2016

Amser: 11.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Steve George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Craffu.PW@Cynulliad.Cymru

## Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (09.00 - 09.15)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Sesiwn Graffu ar Waith Gweinidogion - Adolygiad o Bynciau y Craffwyd Arnynt mewn Cyfarfodydd Blaenorol

(11.15-13.15) (Tudalennau 1 - 41)

Carwyn Jones AC, Prif Weinidog

### 3 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 42 - 43)

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Eitem 5

### 5 Trafod y Dystiolaeth o'r Sesiwn Flaenorol

(13.15-13.30)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PWYLLGOR CRAFFU AR WAITH Y PRIF WEINIDOG**

**DIWEDDARIAD**

**Y Rhaglen Ddeddfwriaethol**

Trwy ein Rhaglen Ddeddfwriaethol rydym wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl Cymru.

Yn ystod tymor presennol y Cynulliad rydym wedi defnyddio ein deddfwriaeth i wneud diwygiadau arwyddocaol i wasanaethau cymdeithasol, tai, a chynllunio – systemau pwysig sy'n effeithio ar bob un ohonom.

Rydym hefyd wedi cyflawni deddfwriaeth i wella iechyd pobl. Trwy Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 rydym wedi ysgogi gwelliannau i safon hylendid bwyd yng Nghymru, a chyda Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 rydym yn galluogi mwy o bobl i deithio'n llesol yn amlach ac yn fwy diogel, a thrwy Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 rydym wedi cyflwyno system optio allan ar gyfer rhoi organau.

Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, mae 24 o Ddeddfau'r Cynulliad ar y llyfr statud o ganlyniad i Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, gyda Bil yr Amgylchedd (Cymru) wedi cael ei basio gan y Cynulliad hefyd. Mae 3 Bil arall a gynigiwyd gan y Llywodraeth gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd, a'r rheiny'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, casglu a rheoli trethi, ac iechyd y cyhoedd.

Mae'r broses o ddeddfu yn nhymor presennol y Cynulliad wedi bod yn gryn her ac mae'r Llywodraeth a'r Cynulliad wedi gorfod dysgu'n gyflym. Bu craffu dwys ar Filiau'r Llywodraeth, ond ni ddylai'r broses graffu fod yn gysurus a dylid ei hystyried yn arwydd ei bod yn gweithio, ac yn cael effaith.

Mae'r Llywodraeth wedi ceisio mynd ati'n barhaus i wella'i phrosesau deddfwriaethol mewnol, gan ddysgu'r gwersi sydd wedi deillio o dymor presennol y Cynulliad. Ond rydym hefyd yn cydnabod bod cryn dipyn wedi cael ei gyflawni dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae'r Cynulliad wedi gwneud yr un modd, a bydd y Pwyllgor wedi nodi ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i wneud deddfau yng Nghymru. Mae'n amlwg bod y Pwyllgor a'r Llywodraeth, mewn sawl ffordd, yn rhannu'r un weledigaeth o ran sut y gallwn wella a chryfhau ein prosesau deddfwriaethol.

Mae'n rhaid i Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth gael ei chynllunio a'i rheoli mewn ffordd mor gadarn â phosibl ar gyfer y tymor nesaf. Ar adeg gynnar, mae'n rhaid gwneud hyn er mwyn sicrhau bod yr holl gynigion deddfwriaethol yn cael eu tanategu gan bolisi a ddatblygwyd yn gynhwysfawr, gan gynnwys mynd ati'n gynnar i adnabod ac ystyried goblygiadau ariannol.

Hefyd, cyn cyflwyno deddfwriaeth i'r Cynulliad, dylai'r dull mewnol o asesu Biliau a'r ddogfennaeth gysylltiedig gael ei fireinio a'i gryfhau.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn ymgysylltu'n effeithiol trwy gydol y broses ddeddfwriaethol. Dyma un rheswm pam ein bod wedi gwrthod argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau drafft. Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn bwysig ymgynghori yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac yn ystod y Cynulliad hwn rydym wedi ymgynghori ynghylch deddfwriaeth cyn ei chyflwyno, naill ai ar y cam polisi, neu drwy Bapur Gwyn neu Fil Drafft. Mae'r ystyriaeth hon yn hanfodol i sicrhau ymgysylltu effeithiol, tra byddai rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau Drafft yn cyfyngu ar hyn.

Er bod a wnelo llawer o hyn â pharatoi a chyflawni Biliau unigol, ceir gwersi y mae'n rhaid eu dysgu hefyd mewn perthynas â'r rhaglen ddeddfwriaethol yn ei chyfanrwydd. Er bod argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn galw am ailwampio'r trefniadau ar gyfer datblygu a chydgysylltu'r rhaglen ddeddfwriaethol, nid wyf yn credu bod angen ailwampio'r trefniadau. Mae gennym waith ar y gweill i gryfhau prosesau mewnol Llywodraeth Cymru, sy'n adeiladu ar y gwelliannau hynny a wnaed yn barod.

Rydym wedi dod i nifer o gasgliadau ynglŷn â sut ddylai'r rhaglen ddeddfwriaethol gael ei rheoli a'i chydgysylltu. Mae'r rhain yn seiliedig ar ein profiad dros dymor presennol y Cynulliad, a mater i Lywodraeth nesaf Cymru ei ystyried fydd hyn wrth gwrs.

Fel arfer dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dim mwy na 5 neu 6 Bil bob blwyddyn. Dylid ystyried hyn yn rheol ddefnyddiol sy'n seiliedig ar synnwyr y fawd, tra'i bod yn bwysig cydnabod y gall fod ffactorau allanol sy'n golygu ei bod yn ofynnol i'r Llywodraeth wyro oddi wrth hyn. Gall maint, cymhlethdod a graddfa diddordeb y cyhoedd amrywio'n sylweddol o un Bil i'r llall, ac mae'r ffactorau hyn yn dwyn goblygiadau amlwg nid dim ond ar gyfer yr amser y mae ar y Cynulliad ei angen i graffu, ond hefyd yr amser a'r adnoddau y mae eu hangen i ddatblygu ac ymgynghori ynghylch y polisi ac yna i baratoi'r ddeddfwriaeth a dogfennau cysylltiedig.

Hefyd, ni ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Biliau yn 12 mis olaf Tymor Cynulliad. Er y gall fod amgylchiadau lle na ellir osgoi hyn, oherwydd y cyfyngiad y mae'n ei roi ar yr amser sydd ar gael i'r Cynulliad graffu, mae'n achosi risg i hynt y Bil.

Dylai Llywodraeth Cymru newid i raglen ddeddfwriaethol flynyddol, gyda datganiad blynyddol gan y Prif Weinidog sy'n nodi'r Biliau hynny a fydd yn cael eu cyflwyno yn y 12 mis canlynol. Fel sy'n arferol mewn deddfwrfeydd eraill, bydd datganiad blynyddol yn sicrhau bod cyhoeddiadau ynghylch cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn amserol, yn gywir, ac yn galluogi'r Llywodraeth i ymateb yn fwy parod i newidiadau mewn amgylchiadau dros dymor o 5 mlynedd yn y Cynulliad. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl

datblygu polisi ac ymgynghori yn ei gylch, gydag opsiynau ar gyfer gweithredu, gan gynnwys deddfwriaeth, yn cael eu hystyried yn llawn.

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu ei chynigion deddfwriaethol yng nghyd-destun y Rhaglen yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn galluogi'r Llywodraeth i fod yn ystyriol o effaith gyffredinol y Rhaglen ar ein partneriaid cyflawni a'r sector preifat.

**Uned Gyflawni'r Prif Weinidog**

Ym mis Chwefror 2013, fe gyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar Uned Gyflawni'r Prif weinidog. Roedd y dystiolaeth honno'n nodi'n glir beth yw rôl fy Uned a'i dulliau gweithredu. Cafodd yr elfennau hynny, ynghyd ag effeithiolrwydd yr Uned, eu trafod mewn llawer mwy o fanylder yn ystod y Pwyllgor ar 27 Chwefror 2013.

Mae llawer o'r wybodaeth a ddarparwyd bryd hynny'n dal i fod yn gywir gan nad yw ffocws sylfaenol yr Uned Gyflawni wedi newid. Mae'r papur hwn yn atgyfnerthu'r negeseuon allweddol ynglŷn â rôl yr Uned sy'n ddigyfnewid i raddau helaeth, ac yn darparu diweddariad ar y sefyllfa bresennol lle mae'n briodol gwneud hynny.

Mae'r Uned Gyflawni wedi aros yn dîm bach ac mae'n cynnwys pedwar aelod ar hyn o bryd, sy'n atebol i Ddirprwy Gyfarwyddwr.

O'r dechrau un, mae'r uned wedi bod yn adrodd yn uniongyrchol wrthyf fi ar gynnydd ac effeithiolrwydd y sefydliad o ran cyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth, a nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae wedi herio a phrofi cadernid camau gweithredu allweddol, wedi adnabod ysgogiadau ar gyfer newid ochr yn ochr â chyfleoedd pellach i gysoni rhaglenni i gyflawni canlyniadau gwell a mwy effeithiol.

Wrth gyflawni ei rôl, mae'r Uned Gyflawni wedi annog adrannau i weithio ar y cyd, gan sicrhau bod lefel briodol o gydweithio a chydlynu polisïau ar draws portffolios. Mae'r Uned wedi bod yn cadw golwg ar y sefydliad, gan ei helpu i ganolbwyntio ar y gweithgareddau allweddol sy'n cefnogi ein blaenoriaethau trawsbynciol megis swyddi a thwf, cyrhaeddiad addysgol a threchu tlodi.

Mae'r Uned Gyflawni wedi parhau i'm briffio bob hyn a hyn cyn y cyfarfodydd dwyochrog am gyflawni yr wyf wedi bod yn eu cynnal gyda Gweinidogion a'u huwch swyddogion trwy gydol y tymor hwn. Mae wedi rhoi safbwynt diduedd i mi ar adrannau er mwyn imi allu barnu sut y mae polisïau'n cael eu datblygu a sut y mae'r gwaith o gyflawni'n mynd rhagddo. Mae hyn wedi fy ngalluogi i fonitro perfformiad ar draws y sefydliad, a dwyn fy Ngweinidogion a'u hadrannau i gyfrif. Mae wedi dangos yn gyson y gwerth y mae'n ei ychwanegu trwy roi imi ddull y gallaf ei ddefnyddio i gael barn, cyngor a gwybodaeth yn rhydd ac yn ddidwyll, a hynny trwy drafodaeth breifat. Mae cyfnewid barn yn rhydd ac yn ddidwyll fel hyn wedi bod yn hanfodol i gynnal asesiad gonest o gyflawni.

Rwyf wedi dweud yn flaenorol y dylai effeithiolrwydd yr Uned Gyflawni gael ei farnu ar sail cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Roedd yr adroddiad blynyddol terfynol ar y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015 yn dangos bod mwy na 95% o'n hymrwymiadau naill ai wedi cael eu cyflawni neu ar y trywydd cywir i gael eu cyflawni. Mae'r Uned wedi bod yn allweddol o ran helpu'r sefydliad i gyflawni hynny. Wrth feddwl am effaith yr Uned, mae'n bwysig cofio na chafodd ei sefydlu i wneud swyddi pobl eraill drostynt nac i gyflawni ar wahân i weddill y sefydliad. Felly nid oes mesurau o berfformiad unigryw ac ar wahân ar gyfer yr Uned. Fodd bynnag, trwy ei gwaith craffu mae wedi sicrhau bod ein polisïau strategol wedi aros ar y trywydd cywir. O'm safbwynt i, mae'n amlwg bod yr Uned wedi dod yn rhan annatod o'r Llywodraeth ac wedi cynorthwyo adrannau i gyflawni. O ran y gwerth y mae'r Uned Gyflawni wedi'i ychwanegu o fewn adrannau, rwy'n fodlon ei bod wedi llwyddo i ddylanwadu ar ymddygiad y tu ôl i'r llenni, gan roi anogaeth i feddwl yn wahanol a helpu i lunio dulliau mwy effeithiol o gyflawni amcanion strategol y Llywodraeth.

Mae'r Uned Gyflawni bellach yn swyddogaeth sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac yn cael ei derbyn yn llawn. Mae Gweinidogion a'u hadrannau'n gysurus yn gweithio gyda'r Uned Gyflawni, ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Uned fel rhan hanfodol o beirianwaith y Llywodraeth.

**Tlodi Plant**

Ers imi ymddangos gerbron y Pwyllgor yn 2013, bu nifer o ddatblygiadau allweddol mewn perthynas â threchu tlodi plant yng Nghymru.

Yn 2014, fe gyhoeddon ni werthusiad o Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. Canfu'r gwerthusiad hwn fod y dull yr ydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru'n debygol o wneud cyfraniad pwysig tuag at wella'r canlyniadau i blant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, ond bod rhai o fanteision disgwyliedig ein dull yn debygol o gael eu cyflawni dros y tymor hwy. O ganlyniad, roedd ein Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, yn nodi nifer o flaenoriaethau newydd i helpu i wella canlyniadau i deuluoedd incwm isel yn y presennol.

Yn 2015, fe ymgynghoron ni ynghylch Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig. Roedd hyn yn gyfle inni fyfyrio ymhellach ynghylch ein dull presennol ac adnabod cyfleoedd newydd ar gyfer cefnogi plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Dangosodd yr ymgynghoriad fod cefnogaeth gref i gynnal ein hymrwymiad i gyflawni'r tri amcan strategol yn Strategaeth Tlodi Plant 2011. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc i'w galluogi i sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n dda, a lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau addysg, iechyd ac economaidd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad, fe wnaethom hefyd gynnwys dau amcan strategol newydd ar gyfer trechu tlodi plant. Mae'r cyntaf yn nodi pwysigrwydd defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i greu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng

Nghymru. Mae'r ail yn cydnabod yr angen i gynorthwyo teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm yr aelwyd trwy gyngor ynghylch dyledion a materion ariannol, camau gweithredu i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi", lle mae aelwydydd tlawd yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau, a chamau gweithredu i liniaru effeithiau diwygio lles.

Mae'r Strategaeth ddiwygiedig hefyd yn ailddatgan ein huchelgais i ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn teimlo y byddai cadw'r uchelgais yn helpu i gynnal momentwm a sicrhau buddsoddiad parhaus mewn atal tlodi yn y tymor hwy. Byddai hefyd yn anfon neges gref: bod tlodi plant yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a'n bod yn disgwyl i bawb gyfrannu at yr agenda.

Rydym yn cydnabod yr heriau sylweddol y bydd yr uchelgais hwn yn eu dwyn, yn enwedig yng ngoleuni effaith a maint y toriadau mewn gwariant cyhoeddus a diwygiadau lles Llywodraeth y DU.

Roedd y gwerthusiad o Strategaeth 2011 yn awgrymu nad oedd maint rhaglenni'n ddigon i gael effaith ar y lefel ofynnol, o ran trechu tlodi. Felly rydym wedi diwygio ein dull i ganolbwyntio ar achosion sylfaenol tlodi. Yng nghyd-destun cyllidebau gostyngol, byddwn yn canolbwyntio ar gyflogadwyedd a'r blynyddoedd cynnar gan fod angen inni ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle gallwn gael yr effaith fwyaf. Fel rhan o gamau a gychwynnwyd gan fy Uned Gyflawni, mae holl Adrannau'r Llywodraeth wedi bod yn cydweithio i flaenoriaethu'r gwaith hwn ac mae polisïau a rhaglenni newydd wedi cael eu sefydlu i helpu i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl o ran cyflawni'r agenda hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i symleiddio rhaglenni presennol hefyd. Er enghraifft, yn ddiweddar rydym wedi gwneud darn o waith i ganfod camau gweithredu i gysoni'r pedair prif raglen trechu tlodi, sef Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Cefnogi Pobl, yn fwy â'i gilydd yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi wedi parhau i fod y mecanwaith allweddol ar gyfer adrodd ar gynnydd mewn perthynas â thlodi plant. Er bod y Cynllun Gweithredu'n gynllun sy'n ymwneud â phobl o bob oed, mae'n cynnwys ffocws cryf iawn ar blant a phobl ifanc. Mae'n nodi cerrig milltir a thargedau allweddol, y mae llawer ohonynt yn tanategu amcanion y Strategaeth Tlodi Plant. Mae hyn yn cynnwys targedau a cherrig milltir o ran gwella canlyniadau iechyd a datblygiadol yn y blynyddoedd cynnar, gwella canlyniadau addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim, lleihau anghydraddoldebau iechyd, lleihau nifer yr aelwydydd heb waith, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a thai ac adfywio.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu yn rhoi'r cyfle i nodi unrhyw gamau gweithredu ac ymrwymiadau newydd ar gyfer cyflawni amcanion strategol y Strategaeth Tlodi Plant, ar sail barhaus.

Ni allwn anwybyddu'r ffaith nad yw'r holl ysgogiadau ar gael i Lywodraeth Cymru er mwyn dylanwadu ar lefelau tlodi – cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw ysgogiadau pwysig megis newidiadau i'r system trethi a budd-daliadau. Pan roddais dystiolaeth ar dlodi plant i'r Pwyllgor yn 2013, ni allem fod wedi rhagweld effaith ddinistriol mesurau cynni cyllidol Llywodraeth y DU a'i rhaglen Diwygio Lles. Fodd bynnag, mae llawer y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, yn enwedig o ran gwella cyrhaeddiad addysgol, cynyddu sgiliau, lleihau nifer yr aelwydydd heb waith, a gwella canlyniadau iechyd.

Credaf fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dull cywir ar gyfer trechu tlodi. Fe wnaed cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf:

- Mae nifer yr aelwydydd heb waith wedi gostwng. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, rydym wedi creu neu ddiogelu 150,000 o swyddi yng Nghymru, tra bo diweithdra yng Nghymru bron â bod yn is nag erioed.

- Rydym wedi cyrraedd ein targed i dorri'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a thlodi yn y Cyfnod Sylfaen dair blynedd yn gynnar. Ym mis Rhagfyr y llynedd cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau darged sy'n fwy o her i barhau i ysgogi gwelliant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen;

- Rydym ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targedau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;

- Rydym yn gwella sgiliau ar draws nifer o raglenni, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Esgyn a Teuluoedd yn Gyntaf;

- Bydd y rhaglen Plentyn Iach Cymru yn darparu rhaglen gyson, gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan o ran gofal iechyd craidd yn y blynyddoedd cynnar a fydd o fudd yn arbennig i'r rhai sy'n byw mewn tlodi sydd fwyaf mewn perygl o brofi canlyniadau gwaeth ym mlynyddoedd cynnar bywyd, sydd mor allweddol.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen inni wneud mwy. Mae angen inni barhau i ddatblygu ein dealltwriaeth am yr hyn y mae angen ei wneud er mwyn cyflawni'r newid sy'n ofynnol yn y prif ddangosydd poblogaeth ar gyfer tlodi plant. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddadansoddi setiau data allweddol, gan gynnwys ein Harolwg Cenedlaethol, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer Cymru, i gael dealltwriaeth well am nodweddion yr aelwydydd hynny sy'n byw mewn tlodi ac er mwyn datblygu cerrig milltir interim ar gyfer trechu tlodi plant yng Nghymru.

Gwyddom na all Llywodraeth Cymru drechu tlodi ar ei phen ei hun. Bydd gweithio mewn partneriaeth a dull cydweithredol o drechu tlodi plant yn hanfodol i sicrhau bod canlyniadau a cherrig milltir interim yn cael eu cyflawni. Byddwn yn parhau i ymgysylltu a chydweithio'n agos iawn gyda'n partneriaid presennol i drechu tlodi plant, sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a'r Sector Preifat.

## Hybu Menter

Mae hybu menter yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym yn canlyn arni â chamau gweithredu amrywiol iawn sy'n cefnogi swyddi, twf ac yn gwella'r amgylchedd busnes yng Nghymru.

Yn ystod tymor y Llywodraeth hon, rydym wedi cefnogi dros 145,000 o swyddi gyda 106,619 o swyddi (wedi'u creu, eu diogelu a'u cynorthwyo) yn y pedair blynedd gyntaf. Bu gwelliant o flwyddyn i flwyddyn a, chyda chyflenwad mwy nag erioed o brosiectau creu swyddi, rydym ar y trywydd cywir ar hyn o bryd i gyflawni gwelliant pellach yn 2015/16 (rhwng 39,000 a 40,000 o swyddi).

Bu cynnydd blynyddol cyson mewn prosiectau Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor (FDI) o'r nifer isaf am 30 mlynedd, sef 23 yn 2011/12 i'r nifer uchaf erioed o 101 yn 2014/15. Roedd nifer y swyddi a grëwyd gan fuddsoddwyr o dramor yn 2014-15 yn uwch nag a fu ers Datganoli hefyd, sef 9,461 o swyddi.

Ers ei lansio yn 2013, mae gwasanaeth Busnes Cymru wedi helpu i greu 13,249 o swyddi ac wedi diogelu 3,387 arall, ac wedi creu mwy na 9,605 o fusnesau newydd yng Nghymru.  Trwy ei rwydwaith o gynghorwyr, mae Busnes Cymru wedi rhoi cyngor i dros 25,447 o BBaChau, ac wedi rhoi gwybodaeth a chymorth cyfeirio i dros 52,798 o fusnesau eraill, yn ogystal â chefnogi 34,706 o unigolion.

Cydnabyddir bod entrepreneuriaeth ieuenctid yng Nghymru yn enghraifft o arfer gorau ledled Ewrop. Mae adroddiad y Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang ar gyfer 2014 yn dangos bod y gyfradd entrepreneuriaeth cyfnod cynnar yng Nghymru ar gyfer pobl 18-29 oed yn 8.4 y cant (cynnydd o'i gymharu â 4.9 y cant yn 2013), sydd uwchlaw'r cyfartaledd o 6.8 y cant ar gyfer y DU ac yn uwch nag unrhyw ran arall o'r DU.

### Prosiectau Seilwaith Pwysig yng Ngogledd Cymru

### Rheilffyrdd

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd uwchraddio'r seilwaith rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru a'r budd y gall ei ddwyn i'r boblogaeth a'r economi bob ochr i'r ffin.

Er bod y seilwaith rheilffyrdd yn dal i fod yn fater heb ei ddatganoli, wrth gyfleu'r achos i Lywodraeth y DU o blaid gwella cysylltiadau rheilffordd rhwng Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, rydym yn ystyried ei bod yn hollbwysig sicrhau dull cydgysylltiedig.

Rydym wedi comisiynu cymorth arbenigol pellach gan Dr Elizabeth Haywood i gynorthwyo gyda'r gwaith ychwanegol sy'n ofynnol i gryfhau'r achos busnes amlinellol strategol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**Ffyrdd**

Mae'r A55 yn llwybr allweddol i Gymru ac yn ffordd o bwys cenedlaethol, gan ddarparu cysylltiadau allweddol ag Ardaloedd Menter a phorthladd Caergybi, a hithau'n cario rhwng 40,000 a 50,000 o gerbydau bob dydd ar gyfartaledd. Fe fuddsoddon ni £4 miliwn mewn rhaglen o waith cadernid ar yr A55 a gwblhawyd ym mis Chwefror 2015.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella diogelwch a chadernid twnelau'r A55 yng Nghonwy, Penmaenbach a Phen y Clip. Rhaglen waith ysbeidiol yw hon ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar fisoedd tawelach y gaeaf, a'r dyddiad ar gyfer cwblhau'r rhaglen gyfan yw Mawrth 2017. Bydd tua £42 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y gwelliannau hyn.

Rydym yn datblygu opsiynau o ran y llwybrau ar gyfer gwella coridor Glannau Dyfrdwy yr A494, ac yn paratoi cynigion ar gyfer gwelliannau ar hyd yr A55 yng Nghyffordd 15/16 ac o Abergwyngregyn i Dai'r Meibion. Rydym hefyd yn datblygu achos busnes ar gyfer y posibilrwydd o drydedd bont dros y Fenai.

**Llifogydd**

Mae contract ar gyfer gwaith gwella sy'n seiliedig ar gynllun draenio uwch yn cael ei ddechrau'n gynharach rhwng Cyffyrdd 12 ac 13 ar yr A55 i helpu i leihau perygl llifogydd. Gall y prosiect gwerth £0.5 miliwn ddechrau'r hydref hwn, yn amodol ar gael cytundeb tirfeddianwyr. Mae'r cynllun hwn wedi'i leoli ar ochr ddeheuol yr A55 a bydd yn cael ei gyflawni cyn y prif gynllun ar gyfer y darn o'r A55 rhwng Abergwyngregyn a Thai'r Meibion.

Mae'r cynllun rhwng Abergwyngregyn a Thai'r Meibion yn brosiect gwella pwysig gwerth £15 miliwn ar gyfer y darn arbennig hwn o'r ffordd y mae angen cryn dipyn o gynllunio arno oherwydd ei faint. Mae'n cynnwys lledu ffosydd draenio o dan yr A55 i wella llif dŵr llifogydd a bydd yn cael ei gyflawni ar y cyd â'r cynllun draenio uwch.

Ers 2011 mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo bron i £300 miliwn, gan gynnwys cyllid Ewropeaidd, i reoli perygl llifogydd a bydd £150 miliwn yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi mewn rheoli perygl arfordirol o 2018. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yng Ngogledd Cymru mewn cynlluniau yn y Rhyl, Corwen, Dolgellau, Bae Colwyn a Biwmares.

**Band Eang**

Yng Ngogledd Cymru, trwy ein rhaglen Cyflymu Cymru, rydym wedi buddsoddi £44,803,264 hyd yma, gyda 177,088 o safleoedd yn cael mynediad at fand eang cyflym iawn o ganlyniad i'r prosiect.

**Ardal Fenter**

Cafodd gwaith ei gwblhau yn 2015 gan gontractwyr Llywodraeth Cymru ar gryfhau arglawdd llifogydd Afon Dyfrdwy am gost o £2.3 miliwn a oedd yn

ofynnol er mwyn ei gwneud yn bosibl datblygu safle Porth y Gogledd a safle'r Meysydd Awyr yn yr Ardal Fenter. Yn dilyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni cam cyntaf seilwaith priffyrdd a fydd yn gwasanaethu tua 60 erw o dir cyflogaeth. Rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau ar y safle yng ngwanwyn 2016 am gost o £4.5 miliwn yn ôl yr amcangyfrif.

**Ynni – Wylfa**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddiad Hitachi ac yn arwain ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r heriau a gaiff eu creu gan y prosiect buddsoddi unigol mwyaf yng Nghymru mewn cenhedlaeth. Y prosiect £12 biliwn i adeiladu Wylfa Newydd fydd y prosiect buddsoddi unigol mwyaf yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf, ac mae o bwysigrwydd arwyddocaol i'r economi, yn enwedig economi Gogledd Orllewin Cymru. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r broses o gyflawni'r orsaf niwclear newydd ac wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Niwclear Llywodraeth Cymru.

**Adfywio**

Trwy ein rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, sy'n cynnwys y Gronfa Adfywio a Dargedir, y gronfa Trechu Tlodi, partneriaethau Canol Tref ac Ardaloedd Gwella Busnes, rydym yn buddsoddi £27 miliwn dros 3 blynedd mewn cynlluniau adfywio a gwella canol trefi ym Mae Colwyn, Caergybi, Wrecsam, Glannau Dyfrdwy, y Rhyl a Chaernarfon, sy'n rhai o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Ngogledd Cymru.

Mae gennym lawer o enghreifftiau cadarnhaol, megis gwaith diweddar i adnewyddu a chodi estyniad i Ganolfan Gymunedol Jesse Hughes yng Nghaergybi. Mae'r Ganolfan yn adnodd cymunedol gwerthfawr ac mae cyllid wedi cael ei ddefnyddio i adnewyddu'r lleoliad. Mae'r Ganolfan yn darparu gwasanaethau addysgol allweddol ar gyfer rhieni, pobl ifanc a phlant yng Nghaergybi, gan gynnwys clybiau ieuenctid rheolaidd, grwpiau cymunedol ac Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn gallu mynychu addysg brif ffrwd.

Hyd yma rydym wedi creu mannau gweithio newydd ar gyfer 440 o swyddi, wedi cynorthwyo 261 o bobl i gael gwaith ac wedi denu bron i £5 miliwn mewn Buddsoddiadau gan y Sector Preifat.

**Prosiectau Seilwaith Sylweddol Eraill**

Er bod ffocws y Pwyllgor wedi bod yn benodol ar brosiectau seilwaith yng Ngogledd Cymru, mae'n bwysig nodi y bu buddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith mewn rhannau eraill o Gymru hefyd.

Er enghraifft, mae ein prosiect Cyflymu Cymru yn cael ei gyflwyno ledled Cymru: yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru rydym wedi buddsoddi £33,296,824 hyd yma, gyda 131,608 o safleoedd yn cael mynediad at fand eang cyflym iawn; yng Nghanol De Cymru rydym wedi buddsoddi £15,780,622 hyd yma, gyda 62,374 o safleoedd yn cael mynediad at fand

eang cyflym iawn; yn Ne Ddwyrain Cymru rydym wedi buddsoddi £30,296,244 hyd yma, gyda 119,748 o safleoedd yn cael mynediad at fand eang cyflym iawn; ac yn Ne Orllewin Cymru rydym wedi buddsoddi £14,528,778 hyd yma, gyda 57,426 o safleoedd yn cael mynediad at fand eang cyflym iawn o ganlyniad i'r prosiect.

Maes arall lle buddsoddwyd yn sylweddol mewn seilwaith yw trafnidiaeth. Rydym wedi buddsoddi £72.1 miliwn mewn gwelliannau ar yr A477 rhwng San Clêr a Rhos-goch, prosiect dros bellter o 9.6km sydd wedi gwella'r ffordd o gylchfan San Clêr i Bont Newydd ac sy'n osgoi pentrefi Llanddowror a Rhos-goch. Fe fuddsoddon ni £4.5 miliwn mewn ffordd ymadael wedi'i neilltuo ar gyfer Cyffordd 33, M4 ac £1.2 miliwn mewn ffordd ymadael wedi'i neilltuo rhwng yr M4 tua'r dwyrain a'r A470 tua'r gogledd i leddfu rhywfaint o'r pwysau ar Gyffordd 32 yng nghylchfan Coryton. Bydd cynllun deuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd yr A465 yn gwella diogelwch ac amseroedd siwrneiau ac mae'n cefnogi'r rhaglen i adfywio ardal Blaenau'r Cymoedd trwy ddarparu cysylltiadau cludiant gwell tua'r dwyrain ac o'r dwyrain. Bydd y prosiect yn cael ei gwblhau yn 2020 am gost o tua £800 miliwn.

Rydym wedi cyfrannu £15 miliwn tuag at gyfanswm cost prosiect o £350 miliwn gan Brifysgol Abertawe i ddatblygu ei Hail Gampws, yn benodol mewn perthynas â chodi'r adeilad SMaRT. Mae'r Brifysgol yn amcangyfrif y bydd y campws yn cyfrannu mwy na £3 biliwn i'r economi ranbarthol dros y 10 mlynedd nesaf. Crëwyd 4,000 o swyddi uniongyrchol yn ystod y cam adeiladu, gyda 6,000 o swyddi mwy anuniongyrchol yn cael eu cefnogi yn yr economi ehangach.

Rydym wedi darparu benthyciad o £6 miliwn allan o gyfanswm buddsoddiad o £140 miliwn ar gyfer Tai Fforddiadwy Melin Elái i drawsnewid safle 53 erw diffaith yn un o ardaloedd preswyl mwyaf deniadol Caerdydd. Rydym hefyd wedi darparu benthyciad masnachol o £7 miliwn ar gyfer Whiteheads Development Company. Safle Whiteheads yw'r trydydd prosiect gan Tai Tirion yng Nghymru. Yn amodol ar ganiatâd cynllunio rhagwelir y bydd y prosiect hwn yn creu tua 1500 o swyddi ac yn dwyn budd economaidd o oddeutu £140 miliwn i'r economi leol. Mae'r rhain yn ffigyrau sylweddol a fydd yn cefnogi'r amcan i greu swyddi, y diwydiant adeiladu a busnesau o fewn y gadwyn gyflenwi.

## Perthynas Llywodraeth Cymru gyda'r Trydydd Sector a'r Sector Preifat

### Y Trydydd Sector

Rydym yn dal i fod yn unigryw yng Nghymru yn yr ystyr bod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector wedi'i sefydlu mewn deddfwriaeth trwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fe arweiniodd hyn at gyhoeddi Cynllun y Trydydd Sector wedi'i ddiwygio'n llwyr yn 2014 a hwnnw'n cynnwys Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

Rydym wedi parhau i feithrin ein perthynas trwy ailedrych ar y strwythurau ymgysylltu ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector, gan gynnwys

Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector – gan wrando ar adborth a gafwyd trwy ein hymgynghoriad yn 2014 i ddatblygu Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyfarfodydd Gweinidogol cysylltiedig.

Mae pob Gweinidog yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr o'r Trydydd Sector i drafod materion sydd o bwysigrwydd i'r ddwy ochr yn unol â Fframwaith Ymgysylltu y cytunwyd arno. Mae prif gyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector wedi cael eu diwygio hefyd fel eu bod yn hirach gyda mwy o amser i drafod materion trawsbynciol.

Cyfarfu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg â chynrychiolwyr o'r Trydydd Sector ar 10 Chwefror i drafod cynnydd gyda blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer Addysg a Sgiliau. Darparwyd diweddariadau ar bump o'r saith blaenoriaeth: torri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad; Her Ysgolion Cymru; y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid; Polisi Cronfa Gymdeithasol Ewrop a mynediad at addysg Gymraeg ym mhob cyfnod.

Rydym wedi datblygu saith egwyddor allweddol sy'n nodi ein hymrwymiad i bwysigrwydd gweithio gyda chymunedau. Mae'r egwyddorion pwysig hyn yn helpu sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau i gydweithio'n well. Cafodd Cynllun y Trydydd Sector a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector eu datblygu yn unol â'r egwyddorion hyn, mewn partneriaeth gyda'r Trydydd Sector.

Fel Cynllun y Trydydd Sector ei hun, cafodd ein Polisi Gwirfoddoli – *Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau* – a gyhoeddwyd fis Awst diwethaf, ei ddatblygu mewn partneriaeth agos â'r Trydydd Sector hefyd. Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau gwerth gwirfoddolwyr ac yn nodi'n fanwl beth yw rôl Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r Trydydd Sector o ran eu cefnogi. Mae'r Polisi Gwirfoddoli'n ceisio helpu i ddileu rhwystrau i wirfoddoli trwy roi cymorth i'r rhai ac arnynt angen help ychwanegol i gael mynediad at gyfleoedd i wirfoddoli, megis anghenion cymorth uwch. Mae'n cydnabod bod gwirfoddoli, dan rai amgylchiadau, yn gallu helpu pobl tuag at gyflogaeth.

Er mwyn cefnogi gwirfoddoli a'r Trydydd Sector yn ehangach, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £6.6 miliwn yn 2015/16 fel cyllid craidd ar gyfer Cymorth Trydydd Sector Cymru (sy'n bennaf yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol ledled Cymru). Mae'r cyllid hwn yn galluogi'r sefydliadau hyn i gynnig ystod o wasanaethau cymorth i sefydliadau cymunedol lleol ac i wirfoddolwyr, gan gynnwys hybu trefniadau llywodraethu da, gwella gweithgareddau codi arian ac annog pobl i wirfoddoli.

Yn fwy penodol, mae'r cyllid hwn wedi cyfrannu tuag at y canlynol:

- Adnabod 8,000 o gyfleoedd i wirfoddoli;
- 1.3 miliwn o bobl yn cael cyngor o Wefannau;
- 5,000 o Ymddiriedolwyr wedi cael cymorth gyda llywodraethu da;
- 300 o sefydliadau neu wasanaethau newydd wedi'u datblygu

- 2,600 o bobl ifanc wedi cael cymorth i ennill eu tystysgrifau Gwirfoddolwyr y Mileniwm am 200 awr, 100 awr a 50 awr;

Mae cymorth gan Lywodraeth Cymru yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r cymorth ar gyfer Cymorth Trydydd Sector Cymru. Yn 2013-14 fe wariodd Llywodraeth Cymru £326.5 miliwn ar gyllid uniongyrchol i'r Trydydd Sector. Mae hyn yn cynnwys cyllid trwy lwybrau grantiau a chaffael cystadleuol.

Nid yw hyn yn cynnwys taliadau anuniongyrchol i sefydliadau'r Trydydd Sector lle mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer sefydliad arall, er enghraifft Awdurdod Lleol, sydd wedyn o bosibl wedi ariannu sefydliadau yn y Trydydd Sector.

Mae'r gostyngiad mewn cyllid grant i'r Trydydd Sector yr adroddwyd arno yn Adroddiad Llywodraeth Cymru yn 2014 ar Reoli Grantiau (£303 miliwn, £265 miliwn a £240 miliwn dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf yn y drefn honno) yn adlewyrchu'r sefyllfa economaidd ac mae'n anorfod bod y gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth y DU i Gymru wedi effeithio ar gyllid ar draws pob sector.

Mae'r gostyngiad yr adroddwyd arno mewn cyllid grant wedi cael ei leddfu lle mae cyllid wedi cael ei ddarparu trwy gontractau. Yn 2012-13 llwyddodd y Trydydd Sector i ddenu £43.7 miliwn mewn gwariant caffael, ac yn 2013-14 fe gynyddodd hyn i £66.5 miliwn mewn contractau newydd a sicrhawyd gan y Trydydd Sector.

Ar y cyfan, mae cymorth Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector wedi aros yn gryf.

**Y Sector Preifat**

Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned fusnes ledled Cymru, o egin entrepreneuriaid, micro-fusnesau, BBaChau a busnesau cymdeithasol i Gwmnïau o Bwys Rhanbarthol a Chwmnïau Angori. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu trwy baneli annibynnol y sector preifat megis yr amryw Baneli Sector â Blaenoriaeth, Bwrdd Strategol Busnes Cymru, Panel y Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP), Byrddau Cynghori Ardaloedd Menter, Grwpiau Ardaloedd Twf Lleol a Chomisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru.

Mae Cyngor Adnewyddu'r Economi yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru i helpu i oleuo polisïau economaidd a busnes yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn dwyn ynghyd ystod o gynrychiolwyr o fusnesau, mentrau cymdeithasol ac undebau llafur, yn cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog, ac yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn. Mae ystod eang o faterion wedi cael eu trafod gan y Cyngor a'i Weithgor Gweithredol, gan gynnwys Caffael, Sgiliau, Trechu Tlodi, Rheoleiddio Gwell, y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, Busnes Cymru a'r Cyflog Byw.

Ers ei lansio ym mis Ionawr 2013 mae Busnes Cymru wedi rhoi cyngor i dros 25,447 o fusnesau a gwybodaeth a chymorth cyfeirio i dros 52,798 o

fusnesau eraill, yn ogystal â chefnogi 34,706 o unigolion sy'n ystyried dechrau busnes. Mae Busnes Cymru hefyd wedi ymdrin â 90,640 o ymholiadau trwy'r Llinell Gymorth. Yn yr un cyfnod mae'r wefan wedi cael dros 1.5m o ymweliadau, tra bo gan ei gylchlythyr a'i sianeli yn y cyfryngau cymdeithasol dros 100,000 o ddilynwyr.

Mae Cyfeiriadur Busnesau Cymru wedi cael ei lansio'n ddiweddar ac yn rhoi cyfle i fusnesau yng Nghymru hyrwyddo'u nwyddau, eu gwasanaethau a'u cymwysterau i fusnesau eraill ac i ddefnyddwyr. Gall defnyddwyr chwilio am fusnesau yng Nghymru yn ôl enw neu chwilio'n fanylach gan ddefnyddio cyfuniad o sector, is-sector, rhanbarth neu god post.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ar-lein i Fusnesau, a lansiwyd ym mis Awst 2015, yn trefnu bod cyrsiau busnes wyneb-yn-wyneb presennol Llywodraeth Cymru ar gael trwy wasanaeth ar-lein newydd, gan ddarparu mynediad ar-alw at wybodaeth i helpu unigolion i ddechrau a thyfu busnes. Hyd yn hyn mae wedi denu dros 3,450 o gofrestriadau ac mae dros 3,000 o fodiwlau/cyrsiau byr wedi cael eu cwblhau. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae angen ei wneud i fod yn entrepreneur llwyddiannus, mae rhwydwaith o 343 o Fodelau Rôl Syniadau Mawr Cymru yn darparu gweithdai ysbrydoledig ac yn hyfforddi entrepreneuriaid y dyfodol.

Bydd Ymgyrch Rhoi Yn Ôl yn cael ei lansio'n fuan i helpu busnesau i feithrin cysylltiadau agosach â'r gymuned leol. Bydd yr ymgyrch yn hybu'r arfer o weithio gydag ysgolion lleol, busnesau ac entrepreneuriaid fel cyfle i gysylltu ag adnoddau lleol a rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned ar yr un pryd.

Bydd yr ardal newydd ar wefan Busnes Cymru yn annog busnesau sydd wedi cael cymorth i roi yn ôl trwy fentora, dod yn fodel rôl neu 'fabwysiadu entrepreneur' e.e. darparu mynediad at le gweithio a chyfleusterau TG. Bydd noson agored ar 17 Mawrth yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno i fusnesau ddod i mewn a defnyddio'r lle.

Ledled Cymru mae 50 o Gwmnïau Angori a 62 o Gwmnïau o Bwys Rhanbarthol ar hyn o bryd. Cynhaliwyd digwyddiad sgiliau ar 3 Chwefror, a hwnnw'n cael ei lywyddu gan Tata Steel. Bydd y ffocws ar sut y gall cwmnïau gydweithio'n fwy i roi cymorth i ddatblygu sgiliau. Caiff y digwyddiad ei arwain gan y Cwmnïau Angori a Phartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De Ddwyrain a De Orllewin Cymru gyda'r Adran Addysg a Sgiliau ac Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyflawni rôl hwyluso.

**Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd 2010**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ym mis Mehefin 2014 ac isod ceir diweddariadau ar feysydd y dangosodd ddiddordeb penodol ynddynt.

**Cynnydd mewn perthynas â'r Targedau**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r prif ymrwymiadau i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd ynghyd â'r nod trosfwaol i gyflawni twf economaidd cynaliadwy a chreu economi carbon isel.

Y prif dargedau yw:

- gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau yn y meysydd sydd wedi'u datganoli;
- gostyngiad o 40% mewn allyriadau ar y cyfan erbyn 2020.

Er y bu cynnydd mewn rhai meysydd, mae'r ffigyrau diweddaraf sydd ar fin cael eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Newid yn yr Hinsawdd sydd ar ddod yn dangos eto bod angen gwneud mwy o waith er mwyn cyrraedd y targed o 40%. Mae'r ffigyrau'n dangos, yn erbyn y targed o 3%, bod allyriadau wedi gostwng 14.7% yn erbyn targed o 9% ond, yn erbyn y targed o 40%, bod allyriadau wedi cynyddu am yr ail flwyddyn yn olynol gan olygu bod y gostyngiad ers 1990 bellach yn 11.9% yn unig (cynnydd o 10.3% mewn allyriadau ers y llynedd).

**Targedau ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd a Chyllidebu Carbon**

Mae pasio Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn golygu yn awr y bydd y gofynion deddfwriaethol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd yn cael eu cryfhau'n sylweddol. Mae'r Bil yn sicrhau y bydd targedau interim clir a chyllidebu carbon yn nodi llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio yng Nghymru gyda'r nod o ostyngiad o 80% o leiaf mewn allyriadau erbyn 2050. Bydd hyn hefyd yn rhoi eglurder a sicrwydd ar gyfer buddsoddi yng Nghymru yng nghyd-destun datgarboneiddio byd-eang.

Wrth bennu cyllidebau carbon, byddwn yn ceisio cyngor arbenigol, yn enwedig gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, er mwyn sicrhau bod allyriadau'n cael eu lleihau mewn ffordd sydd nid yn unig yn cyflawni ein rhwymedigaethau ond sydd hefyd yn cynyddu i'r eithaf fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gwneud hynny. Mae hwn yn newid sylweddol pwysig sy'n cydnabod yn llawn oblygiadau cytundeb Paris yn yr ystyr y bydd a wnelo yn y dyfodol, nid â tharo cydbwysedd rhwng yr economi a'r amgylchedd; mae ffyniant yn y dyfodol yn ddibynnol ar gyflawni ar gyfer y naill a'r llall.

**Cyfrifoldeb am y Newid yn yr Hinsawdd**

Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd yr ydym wedi'i gyflwyno trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn tanlinellu'r ymrwymiad i weithredu ar draws y Llywodraeth. Ni fydd datgarboneiddio Cymru'n cael ei gyflawni gan gamau gweithredu mewn portffolio unigol ond gan weithredu ar y cyd gan nid dim ond y Llywodraeth, ond pob sector.

Caiff hyn ei danlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n pennu saith nod cyffredinol i adlewyrchu'r Gymru a garem. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn berthnasol i'r holl nodau a chyfeirir yn uniongyrchol ato yn y nodau ar gyfer Cymru lewyrchus a Chymru gydnerth. Hefyd, mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithredu ar draws y Llywodraeth wedi cael ei gryfhau ymhellach ym Mil yr Amgylchedd gan y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi sut y maent yn disgwyl cwrdd â'u cyllidebau carbon i gyflawni'r gostyngiad sy'n ofynnol mewn allyriadau. Felly, wrth edrych tua'r dyfodol bydd gan bob portffolio yn Llywodraeth Cymru gyfrifoldebau clir o fewn y fframwaith deddfwriaethol newydd, sy'n adeiladu ar y Rhaglen Lywodraethu bresennol ac ymrwymiadau presennol y Cabinet mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd – yn anad dim yr ymgais i greu economi carbon isel, yr ymrwymiad presennol i asesu pob polisi a rhaglen o ran eu heffaith carbon a'r ymrwymiad i sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf allweddol yn cael eu hasesu o safbwynt y risg i'r hinsawdd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cryfhau cyfrifoldebau byrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd gan fod yn rhaid iddynt, wrth ddatblygu eu hasesiadau o lesiant, ystyried canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd trwy'r adroddiad ar gyfer Cymru yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU.

**Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i asesu'r effaith carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a defnyddio prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd canlyniadau asesiadau'n cael eu gwneud yn hysbys mewn Datganiad Amgylcheddol llawn ar gyfer y prosiect, a allai gael ei gyhoeddi'r gwanwyn hwn os gwneir penderfyniad i gyhoeddi Gorchmynion Statudol drafft. Bydd barn rhanddeiliaid ar y dogfennau hyn yn cael ei hystyried yn ei chyfanrwydd cyn y gwneir unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn neu beidio.

**Y Sector Preswyl**

Yn dilyn y newidiadau yn 2014 i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu, fe wnaed ymrwymiad i adolygu'r Rheoliadau Adeiladu yn 2016. Ceir gofyniad i drosi Cyfarwyddeb Perfformiad Ynni mewn Adeiladau'r UE 2012 i gyflawni adeiladau newydd sydd bron yn ddi-ynni erbyn 2018 ar gyfer adeiladau cyhoeddus a 2020 ar gyfer pob adeilad newydd. Mae'r Gyfarwyddeb yn amodi y dylai safonau gael eu pennu ar sail yr hyn sy'n gost-effeithiol. Cafodd yr adroddiad cyntaf ar gost-effeithiolrwydd ar gyfer y DU ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn 2012. Mae'n ofynnol cyflwyno adroddiadau bob 5 mlynedd ac mae'r adolygiad nesaf i fod i gael ei gynnal yn 2017. Felly bydd adolygiadau o Ran L yn ceisio adnabod cyfleoedd i leihau allyriadau gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb.

O ystyried yr etholiad ym mis Mai 2016, mater i'r weinyddiaeth nesaf fydd hyn. Yn awr, nid yn unig bydd angen i'r newidiadau hyn ystyried gofynion yr UE

ond byddant yn cael eu cyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol newydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd hefyd.

**Ynni Cymunedol**

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol y ddogfen Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol ym mis Gorffennaf 2015, a oedd yn nodi'r weledigaeth ar gyfer dyfodol lle mae cymunedau a busnesau'n defnyddio ynni a gwres a gynhyrchwyd yn lleol o ystod o osodiadau adnewyddadwy i ateb y galw lleol. Bydd gosod a chynnal a chadw'r technolegau adnewyddadwy hyn a'r systemau a ddefnyddir i'w rheoli'n darparu swyddi lleol cynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid ac wedi rhoi cymorth i ddatblygu cyflenwad o brosiectau ynni a'r rheiny'n rhai cymunedol, yn rhai gan awdurdodau lleol, yn rhai Byw'n Glyfar ac yn rhai gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi darparu arbenigedd masnachol ar gyfer cyrff cyhoeddus i helpu i gyflawni prosiectau cynhyrchu ynni ac effeithlonrwydd ynni lleol. Mae ein Cofrestr o Fanteision Cymunedol ac Economaidd yn nodi sut y mae cymunedau lleol wedi cael cymorth gan ddatblygwyr ynni i ariannu blaenoriaethau lleol.

Fe lansiodd y Gwasanaeth Cyfoeth Naturiol wasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru ym Mharc Taf Bargoed, Treharris ar 28 Ionawr 2016. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth integredig gan gynnwys cymorth a chyngor gan Swyddogion Datblygu sy'n gweithio'n lleol, mynediad at gyllid paratoi a benthyciadau, ac adnoddau ar-lein gan gynnwys pecyn cymorth a phorth partneriaeth. Bydd y porth partneriaeth, sy'n cael ei letya ar wefan Ynni Lleol Llywodraeth Cymru, yn dwyn ynghyd bartneriaid megis grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, datblygwyr a buddsoddwyr i gydweithio ar brosiectau, a fydd yn cynyddu'r opsiynau ar gyfer cydberchnogaeth ar ddatblygiadau.

**Newid Ymddygiad ac Addysg**

Yn dilyn yr Adolygiad o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, cyhoeddwyd "Dyfodol Llwyddiannus" ym mis Chwefror 2015 ac yna cyhoeddwyd "Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes" ym mis Hydref 2015, a oedd yn nodi'r cynllun ar gyfer gweithredu ar yr argymhellion, gan gynnwys datblygu'r fframwaith cwricwlwm newydd. Ers hynny, mae rhwydwaith o Ysgolion Arloesi wedi cael ei sefydlu i arwain a llunio dyluniad a datblygiad manwl y cwricwlwm newydd, cynhwysol, eang, cytbwys a heriol a fydd yn cael ei oleuo gan ymchwil a thystiolaeth ryngwladol ac y rhagwelir y dylai fod ar gael i'w addysgu gyntaf mewn ysgolion a lleoliadau eraill erbyn mis Medi 2021.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi cymorth i Cadwch Gymru'n Daclus i gyflawni'r rhaglen Eco-Sgolion hynod lwyddiannus yn 2016/17. Mae dros 830 o ysgolion yng Nghymru bellach yn meddu ar wobr ryngwladol glodfawr y Faner Werdd ac mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn dysgu am yr heriau a achosir gan hinsawdd sy'n newid a sut y gallant hwy fabwysiadu

ymddygiad mwy cynaliadwy. Yn y cyfnod cyn y trafodaethau diweddar yn 21ain Gynhadledd y Partïon i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (COP21) ym Mharis, cymerodd plant o Gymru a Mbale yn Uganda ran mewn ffilm a oedd yn amlygu eu barn am yr angen i weithredu er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

**Uwchgynhadledd COP Paris**

Cynhaliwyd 21ain Gynhadledd y Partïon i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (COP21) ym Mharis rhwng 30 Tachwedd a 12 Rhagfyr 2015, a hynny ar raddfa na welwyd ei thebyg o'r blaen, gydag 20,000 o gynrychiolwyr swyddogol, 195 o lywodraethau a bron i 150 o arweinwyr byd yn bresennol.

Canlyniad COP21 (Cytundeb Paris) oedd cytundeb rhyngwladol newydd wedi'i lofnodi gan bob un o'r 195 o lywodraethau cenedlaethol sy'n cynnwys nod cyffredinol i gadw'r cynnydd yn nhymheredd cyfartalog y byd ymhell islaw 2 radd Celsius uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol ac ymdrechu i gyfyngu'r cynnydd yn y tymheredd i 1.5 gradd Celsius uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol. Trwy lwyddo i gael cytundeb holl wledydd y Ddaear, mae Paris nid yn unig wedi gosod y cyd-destun ar gyfer mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd, ond yn fwy sylfaenol mae hefyd wedi gosod y cyd-destun ar gyfer datgarboneiddio'r economi fyd-eang.

## <u>Hyrwyddo a Marchnata Cymru</u>

**Busnes**

Rydym wedi parhau â'r ymgyrch Just Ask Wales, gan wneud mwy o ddefnydd o sianeli digidol megis LinkedIn i gyrraedd darpar gwsmeriaid. Cyfunwyd hyn â chyfryngau eraill megis print a negeseuon e-bost uniongyrchol.

Hefyd, bu rhaglen o ddigwyddiadau a theithiau masnach, yn hyrwyddo a marchnata Cymru. Roedd y rhain yn cwmpasu nifer o sectorau allweddol megis Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch yn nigwyddiad MRO Europe yn ExCel yn Llundain, a theithiau masnach ym maes Gwyddorau Bywyd i Medica yn yr Almaen ac Arab Health yn Dubai.

Gan droi ein golygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae llu o ddigwyddiadau hefyd a fydd yn hyrwyddo ac yn marchnata cryfderau Cymru fel cyrchfan busnes, gan gynnwys BioCymru a'r Fforwm Twf Gwyrdd Rhyngwladol.

**Rôl Llywodraeth Cymru o ran Gwarchod a Gwella'r Gymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â nifer o ddatblygiadau mewn perthynas â'r Gymraeg ers imi ymddangos gerbron y Pwyllgor i ateb cwestiynau ar y pwnc yma ym mis Mawrth 2015, gan gynnwys yr eitemau canlynol.

**Safonau'r Gymraeg**

Ym mis Hydref, anfonodd Comisiynydd y Cymraeg yr hysbysiadau cyntaf i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg at Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, gyda'r mwyafrif llethol o'r safonau'n rhai y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy erbyn diwedd mis Mawrth. Mae hon yn garreg filltir bwysig o ran gwasanaethau Cymraeg. Mae gwaith ar gylchoedd pellach Safonau'r Gymraeg yn parhau, a chafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 eu cymeradwyo ar 9 Chwefror 2016 ac mae'r rhain yn gwneud Safonau'n berthnasol i 32 o sefydliadau eraill.

Mae Tribiwnlys y Gymraeg wedi cael ei sefydlu hefyd ac mae holl reolau a gweithdrefnau angenrheidiol y Tribiwnlys yn eu lle.

**Siarter Iaith – rhoi anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol mewn ysgolion**

Ym mis Awst 2015, roedd yn bleser gennyf gyhoeddi cyllid o £200,000 i ymestyn Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd i awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru. Ei nod yw cynyddu defnydd anffurfiol o'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'n bwysig dangos i bobl ifanc yn y gyfundrefn addysg bod lle i'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac mae gan y fenter hon rôl bwysig o ran ymgorffori'r iaith ym mhob agwedd ar eu bywydau.

**Pethau Bychain**

Mae ein hymgyrch Pethau Bychain i annog pobl i wneud y pethau bychain yn Gymraeg wedi parhau yn ystod y flwyddyn, gyda ffocws arbennig ar hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg, hyrwyddo'r Gymraeg mewn rhaglenni sgiliau, hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd dros y Nadolig.

**Canolfannau Cymraeg**

Rydym wedi dechrau gweld ffrwyth y cyllid cyfalaf i greu 10 Canolfan Gymraeg ledled Cymru sydd wedi creu egni newydd ar lefel gymunedol ledled Cymru. Canolfannau dynamig, amlbwrpas fydd y rhain a fydd yn gwneud yr iaith yn fwy amlwg yn ein cymunedau. Roedd yn dda gennyf fod yn bresennol yn agoriad Yr Atom yng Nghaerfyrddin, Camu yn Wrecsam, ac rwy'n edrych ymlaen at fod yn bresennol yn agoriad Yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd yn fuan. Mae rhwydwaith wedi cael ei sefydlu i'w gwneud yn bosibl rhannu arfer da rhwng y canolfannau.

**Cymraeg i Oedolion**

Mae sefydlu'r Endid Cenedlaethol newydd ar gyfer Cymraeg i Oedolion wedi arwain at newid llwyr yn y modd y caiff y maes ei weinyddu. Bydd yr Endid yn gyfrifol am gynnig arweiniad strategol ac am weithredu ar argymhellion y

Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion, a oedd yn cynnwys datblygu trefniadau ariannu newydd.

**Addysgu Cymraeg fel Ail Iaith**

Ym mis Hydref 2015 cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes, sef cynllun i weithredu ar yr argymhellion a nodwyd gan yr Athro Graham Donaldson yn Dyfodol Llwyddiannus. Bydd y Rhwydwaith Ysgolion Arloesi yn flaenllaw o ran dylunio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd gyda chyngor a chymorth arbenigol. Bydd ffocws newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel dull cyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu ar lafar a deall yr iaith lafar. Ein nod yw bod pawb yn defnyddio'u Cymraeg gyda balchder a hyder beth bynnag fo'u lefel hyfedredd. Bydd y cwricwlwm newydd yn eu galluogi i gamu ymlaen tuag at fod yn rhugl beth bynnag fo'u cefndir ac ni waeth ble yng Nghymru y maent yn mynd i'r ysgol.

**Lansio Ymgyrch Twristiaeth Gwanwyn 2016: Blwyddyn Antur**

Mae Blwyddyn Antur wedi cael dechrau gwych gyda Chymru a'i hatyniadau'n cael eu rhestru gan nifer ddigynsail o gyfryngau byd-eang – o Rough guide to Lonely Planet i Forbes – fel lle y mae'n rhaid ymweld ag ef yn 2016.

Fe lansiwyd ymgyrch aml-sianel newydd pwysig gan Croeso Cymru ar 25 Ionawr gan adeiladu ar y momentwm hwn. Yr ymgyrch gwerth £4m hwn – sy'n cynnwys hysbysebu ar y teledu, hysbysebu digidol a hysbysebu mewn sinemâu – yw'r cam diweddaraf i wneud Cymru'n gyrchfan byd-eang blaenllaw ar gyfer twristiaeth antur ac mae wedi'i fwriadu ar gyfer marchnadoedd yng Nghymru, yng ngweddill y DU, yng Ngweriniaeth Iwerddon, ac yn yr Almaen. Byddwn hefyd yn bresennol yn The Telegraph Outdoor Show a ffair fasnach yr ITB ym Merlin. Buddsoddiad yn yr economi dwristiaeth sy'n tyfu yng Nghymru yw'r ymgyrch – gwyddom fod ein gweithgarwch marchnata i ddefnyddwyr wedi creu gwariant ychwanegol o £238m yng Nghymru yn 2014.

Mae lleoliadau a gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr hysbyseb yn cynnwys caiacio yn y môr oddi ar Arfordir Penfro; marchogaeth ceffylau ar y traeth yn Llangynydd; gwersylla i deuluoedd yn Nant Gwynant a dringo yn Eryri a Gŵyl Rhif 6 ym Mhortmeirion. Mae'r ymgyrch wedi cael derbyniad eithriadol o dda hyd yn hyn ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol a chan y diwydiant twristiaeth yng Nghymru.

Blwyddyn Antur yw'r gyntaf mewn cyfres o dair blynedd thematig i hyrwyddo Cymru ac mae'r ymgyrch yn arwydd o ddull newydd o farchnata Cymru fel cyrchfan twristiaeth. Mae'r deunydd creadigol ffres a chyfoes yn cynnwys delweddau graffig trawiadol o'r awyr sy'n rhoi golygfa syfrdanol megis trwy lygaid aderyn o dirwedd ryfeddol Cymru.

**Datblygiadau Cyfansoddiadol**

Yn ei Bapur Gwyn, Powers for a Purpose, fe ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithredu nifer o argymhellion o ail Adroddiad Comisiwn Silk, gan gynnwys newid y model datganoli i fodel cadw pwerau.
Yn ystod yr haf, rhannodd Llywodraeth y DU ddrafft gweithio o Fil Cymru gyda Llywodraeth Cymru. Bu Prif Weinidog Cymru yn cyfnewid gohebiaeth gyda'r Ysgrifennydd Gwladol gan nodi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch y drafft. Cynigiodd Prif Weinidog Cymru feysydd pellach i'w datganoli hefyd gan gynnwys datganoli Toll Teithwyr Awyr, yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a Thrwyddedu Alcohol. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymateb i'r cynigion hynny eto.

**Y Bil Drafft a chraffu cyn y broses ddeddfu**

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei fersiwn ddrafft o Fil Cymru ar 20 Hydref ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu. Roedd hon yn cynnwys darpariaeth i newid y model datganoli o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau. Roedd y Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau i ddatganoli cyfrifoldeb am feysydd penodol gan gynnwys etholiadau lleol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol; gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu'r Cynulliad Cenedlaethol a therfynau cyflymder.

Cynhaliodd y Cynulliad ddadl ar y Bil drafft ar 3 Tachwedd pan gododd Aelodau Cynulliad o bob un o'r pedair plaid bryderon dwys ynghylch y drafft. Ers yr hydref, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o gyfarfodydd gydag Adrannau Llywodraeth y DU i egluro pryderon Llywodraeth Cymru.

Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Cymreig a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ill dau ymchwiliadau i'r Bil drafft. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ar 4 Rhagfyr yn galw am nifer o newidiadau i'r Bil cyn ei gyflwyno. Cynhaliodd y Cynulliad ddadl ar yr argymhellion allweddol ar 13 Ionawr a chytunodd yn unfrydol ei fod yn croesawu'r adroddiad ac yn nodi ei argymhellion ynghylch gwelliannau.

Cyhoeddodd Canolfan Lywodraethiant Cymru ac Uned Cyfansoddiad Coleg Prifysgol Llundain adroddiad ar y Bil drafft ar 1 Chwefror. Roedd hwn yn adleisio'r pryderon yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac yn galw am atal y broses am y tro fel y gellir mynd i'r afael â'r materion cyfansoddiadol ac ymarferol sylfaenol.

Cynhaliodd Uwch-Bwyllgor Cymreig Tŷ'r Cyffredin ddadl ar y Bil drafft ar 3 Chwefror.

***Materion Allweddol***

<u>Cyfyngiadau ar newidiadau i Gyfraith Droseddol a Sifil</u>: mynegwyd pryderon y byddai'r Bil drafft yn cyfyngu'n sylweddol ar bŵer y Cynulliad i addasu cyfraith

breifat a chyfraith trosedd, trwy gyflwyno cyfres o brofion cyfreithiol newydd, gan gynnwys y prawf angenrheidrwydd.

- Awdurdodaeth Benodol: O ganlyniad i'r cyfyngiadau arfaethedig, cynigiwyd y dylai fod awdurdodaeth benodol (ond nid awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân) i Gymru er mwyn adlewyrchu'r corff cynyddol o gyfreithiau i Gymru sy'n wahanol i gyfreithiau Lloegr, gan ei gwneud yn haws diffinio pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag addasiadau i gyfraith breifat a chyfraith trosedd mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r mandad yn refferendwm 2011.
- Cydsyniadau Gweinidogion: Byddai'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU roi cydsyniad i unrhyw ddarpariaeth mewn Bil gan y Cynulliad sy'n addasu unrhyw swyddogaethau sydd gan unrhyw un o Weinidogion y DU, Adrannau Llywodraeth y DU neu awdurdod a gedwir, hyd yn oed os yw'r swyddogaethau hyn mewn maes sydd wedi'i ddatganoli. Mae Prif Weinidog Cymru wedi dweud bod hyn yn ymestyn yn sylweddol yr amgylchiadau pan fyddai'n ofynnol i'r Cynulliad gael cydsyniad Llywodraeth y DU er mwyn deddfu.
- Rhestr o Feysydd a Gedwir yn Ôl: Mae Prif Weinidog Cymru wedi dweud bod y rhestr o feysydd a gedwir yn ôl yn cynnwys materion sydd naill ai'n rhai y dylid eu datganoli neu'n rhy fach i'w cynnwys mewn dogfen gyfansoddiadol ac y dylid lleihau'r rhestr yn sylweddol. Mae'r materion dan sylw'n cynnwys trwyddedu alcohol, yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, pedleriaid, masnachu ar y stryd, a'r cod tafarndai.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud y bydd yn ystyried y materion sy'n ymwneud â'r prawf angenrheidrwydd, cydsyniadau gweinidogion a'r rhestr o feysydd a gedwir yn ôl ond mae wedi gwrthod y galwadau am awdurdodaeth benodol neu ar wahân.

***Y Camau Nesaf***

Yn wreiddiol roedd disgwyl i'r Bil, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau gan Lywodraeth y DU, gael ei chyflwyno i Senedd Prydain tua diwedd mis Chwefror ond gall methiant y Pwyllgor Materion Cymreig i gwblhau ei waith craffu cyn y broses ddeddfu tan ddechrau mis Chwefror, a'r feirniadaeth gyffredinol i'r Bil, olygu y bydd oedi cyn ei gyflwyno. Yn seiliedig ar yr amserlen wreiddiol, byddai'r Bil yn mynd trwy Dŷ'r Cyffredin ac yn cael ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi erbyn mis Gorffennaf. Nid yw'n hysbys eto pa effaith y gallai refferendwm ar yr UE ym mis Mehefin ei chael ar yr amserlen hon. Nod Llywodraeth y DU yw bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol yn gynnar yn 2017.

**Refferendwm yr Alban: Goblygiadau i Gymru**

Yn dilyn Refferendwm Annibyniaeth yr Alban, fe sefydlwyd Comisiwn Smith i lunio argymhellion ar gyfer datganoli mwy o bwerau i Senedd yr Alban. Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil yr Alban i Senedd Prydain er mwyn deddfu ar yr argymhellion hyn ac mae'r Bil yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi ar

hyn o bryd. Mae Prif Weinidog Cymru wedi gwneud sylwadau y dylai'r broses hon gynnwys ystyried setliad datganoli Cymru ac, yn fwy eang mai'r man cychwyn y dylid ei ddefnyddio ar gyfer ystyried a ddylai mater gael ei ddatganoli yw "*os yw rhywbeth wedi'i ddatganoli yn yr Alban, pam na ddylai gael ei ddatganoli yng Nghymru?*"

**Datblygiadau Cyfansoddiadol eraill**

Mae materion cyfansoddiadol yn dal i gael eu trafod ar lefel y DU, gyda'r posibilrwydd o gonfensiwn cyfansoddiadol yn dal i gael ei grybwyll fel ffordd bosibl ymlaen. Mae Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi bron â chwblhau Ymchwiliad pwysig ar bwnc "Yr Undeb a Datganoli", ac mae disgwyl i Adroddiad gael ei gyhoeddi yn gynnar yn yr haf. Mae'r broses o ddiwygio trefniadau'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion wedi cael ei harafu gan anallu i ddod o hyd i ddyddiad yn y gaeaf na'r gwanwyn ar gyfer cyfarfod llawn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion, sydd bellach yn annhebygol o ddigwydd cyn etholiadau'r Cynulliad. Mae gan Lywodraeth y DU ymrwymiad i gyhoeddi dogfen ymgynghori ar Ddeddf Hawliau Dynol Brydeinig (i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol), ac efallai y bydd (neu na fydd) hon yn ymddangos yn ystod yr wythnosau nesaf yng nghyd-destun y ddadl ynghylch aelodaeth y DU o'r UE.

**FM Scrutiny Committee - the Process for, and Scrutiny of, Major Public Appointments in Wales**

## 1. Background – public appointments process

There are two different types of public appointments, regulated and unregulated. Regulated appointments must comply with the Public Appointment Commissioner's Code of Practice on Ministerial Appointments to Public Bodies. There is no requirement to abide by the Code for unregulated appointments but the Welsh Government seeks to ensure that all public appointment exercises comply with it.

Significant public appointments form a mixture of regulated and unregulated appointments. For example, the Children's Commissioner post is not regulated but the Chair of the Arts Council is.

The responsible Minister agrees the recruitment process and documentation at the beginning of each recruitment exercise. An interview panel oversees the appointments process. A Public Appointments Assessor chairs all Chair posts to regulated bodies. Panels (whether regulated or not) always contain an independent panel member.

The interview panel produce an interview report at the end of the appointments process. This is sent to the responsible Minister with a recommendation regarding whom to appoint and/or requesting that the responsible Minister meet with the appointable candidates prior to making a decision. Ultimate responsibility for public appointments rests with Ministers. Finally the appointment of the successful candidate must be publicised.

## 2. Update on issues Raised by the Committee in March 2015

*2a) Commissioner Posts and the role/involvement of the National Assembly*
At the Committee meeting in March 2015 the Committee raised concerns that Commissioners are appointed and funded by the Welsh Government. They recommended that these appointments should be made by the National Assembly in order to strengthen independence and accountability.

The Welsh Government has already sought to involve the National Assembly in the appointments process. For example, the interview panel for Commissioner posts always includes at least one AM. The interview panel for the Welsh Language Commissioner has one representative from the National Assembly while the interview panel for the other Commissioner posts contain a representative from each of the main political parties.

Assembly Committees can choose to scrutinise the work of the Commissioners, and invite them to Committee meetings to give evidence, thereby testing their effectiveness and independence.

*2b) Recommendations from the Review of the Children's Commissioner*
The Committee previously asked the First Minister to consider standardising the length of tenure and reappointment of Commissioners and passing a Commissioners Bill. The Children's Commissioner's role and functions were reviewed in 2015 and the Cabinet discussed the findings of the review and implications for other posts.

Commissioner's tenures are defined in legislation. Whilst Ministers see the rationale in having greater consistency and coherence between Commissioners, they are not yet persuaded of the need for a single piece of legislation or amending existing legislation in order to bring greater consistency. It is worth bearing in mind many of the differences between the Commissioners reflect their respective roles and functions, which are specific to their remits.

Any new legislation will be for the new government following the elections.

**3. UK Review of Public Appointments**

Sir Gerry Grimstone has conducted a review of the Office of the Commissioner for Public Appointments. The outcome of the review is not yet available but changes are expected to the role of the Public Appointments Commissioner and the public appointments process. The Welsh Government's arrangements for making appointments will be reviewed once the outcome of the review is known.

**4. Diversity of Public Appointments (see doc 1))**

The Welsh Government has a target to increase the number of women on Boards to 40%. The notes section at the bottom of the doc 1 includes a definition of each of the terms used in the data tables. Please note that figures for 2015/16 will not be available until April 2016.

**Document 1**

| 31 March 2011 – 1 April 2012 | | |
|---|---|---|
| | **Regulated** | **Unregulated** |
| **Total number of appointees serving on Boards** | **355**<br>- 206 male (58.03%)<br>- 149 female (41.97%) | **268**<br>- 191 male (71.27%)<br>- 77 female (28.73%) |
| **New Appointments** | **36**<br>- 25 male (69.44%)<br>- 11 female (30.56%) | **23**<br>- 15 male (62.22%)<br>- 8 female (34.78%) |
| **Re-appointments** | **40**<br>- 22 male (55%)<br>- 18 female (45%) | **50**<br>- 44 male (88%)<br>- 6 female (12%) |

| 31 March 2012 – 1 April 2013 | | |
|---|---|---|
| | **Regulated** | **Unregulated** |
| **Total number of appointees serving on Boards** | **357**<br>- 211 male (59.1%)<br>- 146 female (40.9%) | **231**<br>- 161 male (69.7%)<br>- 70 female (30.3%) |
| **New Appointments** | **99**<br>- 46 male (46.46%)<br>- 53 female (46.46%) | **15**<br>- 12 male (80%)<br>- 3 female (20%) |
| **Re-appointments** | **36**<br>- 27 male (75%)<br>- 9 female (25%) | **28**<br>- 16 male (57.14%)<br>- 12 female (42.86%) |

| 31 March 1 2013 – 1 April 2014 | | |
|---|---|---|
| | **Regulated** | **Unregulated** |
| **Total number of appointees serving on Boards** | **407**<br>- 234 male (57.49%)<br>- 173 female (42.51%) | **223**<br>- 154 male (69.06%)<br>- 69 female (30.94%) |
| **New Appointments** | **72**<br>- 40 male (55.56%)<br>- 32 female(44.44%) | **14**<br>- 11 male (78.57%)<br>- 3 female(21.43%) |

| | | |
|---|---|---|
| **Re-appointments** | **108**<br>- 68 male (62.96%)<br>- 40 female(37.04%) | **46**<br>- 23 male (50%)<br>- 23 female(50%) |

| **31 March 2014 – 1 April 2015** | | |
|---|---|---|
| | **Regulated** | **Unregulated** |
| **Total number of appointees serving on Boards** | **416**<br>- 238 male (57.21%)<br>- 178 female (42.79%) | **240**<br>- 162 male (67.5%)<br>- 78 female (32.5%) |
| **New Appointments** | **63**<br>- 24 male (38.1%)<br>- 38 female (60.32%)<br>- 1 undeclared (1.59%) | **85**<br>- 63 male (74.12%)<br>- 22 female(25.88%) |
| **Re-appointments** | **77**<br>- 40 male (51.95%)<br>- 36 female (46.75%)<br>- 1 undeclared (1.3%) | **18**<br>- 13 male (72.22%)<br>- 5 female (27.78%) |

Notes:

1. Total number of appointees serving on Boards or statutory office. This is for boards administered by the Welsh Government. This figures includes all board members (who can serve up to 10 years) whether or not they have been recruited or re-appointed during the timeframe specified. Please note that although this figure includes appointees serving on Boards administered by the Welsh Government not all of the Board members will necessarily be appointed by the Welsh Government. For example, the National Library of Wales has 15 members, 8 of which are appointed by the Welsh Government and 7 of which are appointed by the National Library.

2. New Appointments – appointment of a new individual to a public board or statutory office within the time period specified.

3. Re-appointment - re-appointment of an existing board member within the timeframe specified.

4. Regulated appointments are those regulated by the Commissioner for Public Appointments.

5. Unregulated appointments are not regulated by the Commissioner for Public Appointments but are recruited to in line with the Nolan principles and the principles of merit, fairness and openness.

Eitem 3

# Joint Committee on Human Rights

Committee Office · House of Commons · London · SW1A 0AA
Tel 020 7219 2797 Email JCHR@parliament.uk Website www.parliament.uk

From Rt Hon Harriet Harman MP, Chair

Rosemary Butler AM
Presiding Officer
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CN99 1NA

27 January 2015

Dear Rosemary,

I am writing to draw your attention to a letter I have sent to the Lord Chancellor following a recent visit by the Joint Committee on Human Rights to Edinburgh. During this visit, the Committee's attention was drawn to the need to ensure that the Scottish Parliament and the other devolved institutions, along with their committees and other relevant public bodies, are given a full opportunity to contribute to the Government's forthcoming consultation on its proposal to repeal the Human Rights Act and replace it with a British Bill of Rights.

You will see from my letter to Mr Gove that the JCHR has sought assurances from him that "no part of the consultation period will overlap with the period where purdah applies or the Scottish Parliament will be dissolved". I added that "clearly this will be a matter of importance not only for Scotland but also for Wales and Northern Ireland".

If the National Assembly for Wales or any of its committees wish to submit views on this matter, or on the Government's proposals, to the JCHR, I and my colleagues would be most happy to receive them, before or after the launch of the Government's consultation.

Yours sincerely,

Harriet Harman

Rt Hon Harriet Harman
Chair of the Joint Committee on Human Rights

# Joint Committee on Human Rights

Committee Office · House of Commons · London · SW1A 0AA

Tel 020 7219 2797 Email JCHR@parliament.uk Website www.parliament.uk

From Rt Hon Harriet Harman MP, Chair


Rt Hon Michael Gove MP
Lord Chancellor and Secretary of State for Justice
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

20 January 2015

Dear Michael,

I am writing following the visit last week of the Joint Committee on Human Rights to Edinburgh. The Committee took the opportunity to meet with the Scottish Parliament's European and External Relations Committee, the Scottish Human Rights Commission, representatives from NGOs, academics and lawyers to discuss, amongst other things, the Government's proposal to repeal the Human Rights Act and replace it with a Bill of Rights.

We are concerned to ensure that the voice of Scotland is fully heard as you consider how to take this proposal forward. It is not just that they need to have their say, we need to be able to hear from them to benefit from their views and experience.

It is now under 10 weeks till the commencement of purdah in respect of the Scottish Parliament election, when the Scottish Parliament will be dissolved. The Scottish Parliament has, through its European and External Relations Committee, considered the issue of the the potential implications for Scotland of the repeal of the Human Rights Act and its replacement with a British Bill of Rights in some considerable depth. Your consultation would undoubtedly benefit from their contribution. But bearing in mind the delay in publication of the consultation document it might be the case that they would not be able to comment as the consultation will overlap with purdah. This would clearly inhibit the possibility of taking note of, and learning from, the specific and different cultural traditions – particularly of Scotland and Northern Ireland.

We note your previous promise to us to engage with the devolved administrations and consult with all citizens of the United Kingdom, in your letter dated 27 November. Accordingly, we would like to seek your assurances that no part of the consultation period will overlap with the period where purdah applies or the Scottish Parliament will be dissolved. I would ask for a response at your earliest opportunity as clearly this will be a matter of importance not only for Scotland but also for Wales and Northern Ireland.

Yours sincerely,

Harriet Harman

Rt Hon Harriet Harman
Chair of the Joint Committee on Human Rights

cc. Rt Hon Oliver Letwin MP